# DOGFEN FRIFFIO ASESU LLESIANT: DIWYLLIANT

## 1. Rhagymadrodd

Drwy brosiect Deall ein Cymunedau, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn dysgu rhagor am fanteision cymunedau, yr hyn sydd fwyaf pwysig i bobl, a sut y mae modd i'w profiadau a'r hyn sydd ganddyn nhw i'w gynnig ein helpu ni i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Diben Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud popeth yn eu gallu i wella llesiant diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pobl a chymunedau. Mae'n gweithio mewn ffyrdd a fydd yn helpu i greu gwlad rydyn ni am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Yn unol â'r Ddeddf, bydd raid i wasanaethau cyhoeddus wneud y canlynol:

- Ystyried y tymor hir;
- Ceisio atal problemau;
- Ceisio cyfrannu at gyflawni holl ddeilliannau saith nod llesiant y Ddeddf;
- Gweithio'n well ar y cyd; a
- Gweithio'n well gyda phobl a chymunedau.

O dan y Ddeddf yma, rhaid i wasanaethau cyhoeddus gynnal a chyhoeddi Asesiad Llesiant sy'n ymdrin â lles pobl yr ardal, lles pobl yng nghymunedau penodol yr ardal, a'r darlun tebygol yn y dyfodol.


Yng Nghwm Taf, rydyn ni wedi bod yn casglu llawer o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad gan y bobl sy'n gwneud polisïau, sy'n comisiynu penderfyniadau am wasanaethau, sy'n darparu gwasanaethau ac sy'n defnyddio gwasanaethau.

Ar ôl hynny siaradon ni â'r bobl hynny am beth amser am y penawdau a ddaeth i'r amlwg o dan bob thema. Ystyrion ni'r ffyrdd y maen nhw'n effeithio ar les, a'u heffaith ar gymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Mae crynodeb o'r penawdau sy'n ymwneud â llesiant amgylcheddol wedi'i gynnwys yn y ddogfen yma. Mae'r ddogfen yn dangos sut y mae pob pennawd yn ymwneud â llesiant a sut y mae lles diwylliannol yn ymwneud â themâu eraill yng nghyd-destun llesiant.

Caiff gwybodaeth am y penawdau sy'n gysylltiedig â phob thema yng nghyd-destun llesiant ei adrodd yn Asesiad Lles Cwm Taf. Caiff pob lefel o'r Asesiad yma ei ategu gan lefel fwy manwl o ddata a gwybodaeth. Bydd yr holl wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod y prosiect ar gyfer y penawdau yma hefyd ar gael mewn llyfrgell ar-lein.

***Ffigwr 1: Strwythur Asesiad Lles Cwm Taf***




# 2. Llesiant amgylcheddol

Ystyr llesiant amgylcheddol yng Nghwm Taf yw amgylchedd glân, diogel y mae modd i bobl ei werthfawrogi, ei ddefnyddio a'i fwynhau. Mae pobl yn falch o dirwedd eithriadol yr ardal, ac maen nhw'n treulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd, mewn mannau gwyrdd hygyrch sydd o ansawdd da. Mae plant yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored, maen nhw'n uniaethu â natur ac maen nhw'n ymfalchïo yn eu hardal. Mae cymunedau'n helpu i wella eu hardaloedd lleol gan ddysgu sgiliau newydd, meithrin perthnasau cymdeithasol cadarn a helpu bywyd gwyllt i ffynnu.

Oherwydd ardaloedd gwyrdd a gynlluniwyd i liniaru llifogydd ac i gronni dŵr yn ystod cyfnodau sych, mae trefi a phentrefi'n llewyrchus ac mae modd iddyn nhw wrthsefyll hinsawdd newidiol, gan ddenu busnes a buddsoddiadau. Oherwydd ffocws ar dechnolegau 'gwyrdd' newydd, mae gan bobl y sgiliau a'r swyddi sy'n eu rhoi ar flaen y gad o ran cynaliadwyedd. Does dim modd gwahanu tirwedd a diwylliant Cwm Taf, ac mae ei hymwelwyr yn mwynhau darganfod gweithgareddau hamdden, bwyd a diod, treftadaeth a'r celfyddydau yn yr ardal. A hithau'n denu mwyfwy o bobl sy'n ymweld ac sy'n aros, mae busnes lleol yn fywiog.

## 3. Penawdau

***<u>Mae amgylchedd naturiol iach yn sylfaen ar gyfer economi gynaliadwy sy'n tyfu, sy'n ffynnu ac sy'n wydn.</u>***

Mae modd i amgylchedd naturiol iach fod yn fodd cost-effeithiol i adfywio a gwella cymdogaethau. Mae tystiolaeth bod modd i amgylchedd trefol a reolir yn dda wella twf economaidd yn lleol ac yn genedlaethol, mae'n fodd i ddenu buddsoddiad ac mae'n fodd i gymell ymwelwyr i wario rhagor o arian. Er enghraifft, yn Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, cafodd gwerth amwynderau tir gwyrdd eu hamcangyfrif. Cafodd ei nodi y gallai economi'r DU golli £1.9 biliwn neu ennill £2.3 biliwn y flwyddyn gan ddibynnu ar bolisïau.[1]

Mae mannau gwyrdd o ansawdd da yn fodd i ddiogelu a chroesawu pobl. Mae buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd yn fodd i wella lefelau o ddatblygiad a chyfraddau cyflogaeth, denu gweithwyr medrus, busnes a rhagor o fuddsoddiad a helpu i gymell ymwelwyr i wario rhagor o arian2. Mae hefyd yn fodd i leihau llifogydd, gwella ansawdd yr aer a dŵr, helpu i leihau nwyon tŷ gwydr a chreu tirwedd ddeniadol sy'n helpu pobl i ymgyfarwyddo â byd natur eto.

Llifogydd a thywydd eithafol sy'n difrodi asedau ac sy'n amharu ar weithrediadau busnes yw'r risgiau mwyaf i fusnesau yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol[3] . Drwy ddatblygu economi carbon isel mae'n bosibl tyfu'n gynaliadwy. Gall gwneud hynny ei gwneud yn bosibl gwrthsefyll newid hinsawdd ac addasu iddo, gan sicrhau bod canol trefi a chymunedau hefyd yn ddeniadol, yn hyfyw ac yn fwy diogel. Mae ffocws ar dechnolegau 'gwyrdd' newydd hefyd yn gallu helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r gyflogaeth a fydd yn rhoi Cwm Taf ar flaen y gad o ran cynaliadwyedd.

Mae gan yr amgylchedd ddylanwad sylweddol ar dwristiaeth sydd yn ei dro'n cynorthwyo i ddenu buddsoddiad, cyflogaeth a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd. Caiff ei hamcangyfrif mai £6.2 biliwn yw gwerth bywyd gwyllt a thwristiaeth gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored i Gymru, a bod 206,000 o bobl yn gweithio yn y meysydd hynny ledled y wlad[4]. Mae ansawdd tirweddau naturiol, eu hygyrchedd, a'r amrywiaeth ohonyn nhw'n ffactorau sylweddol sy'n annog twristiaid i ymweld â Chymru – prif reswm ymwelwyr o'r DU ac ymwelwyr o dramor dros ddod i Gymru yw mwynhau'r dirwedd a'r golygfeydd.

---

[1] *Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU*
[2] Seilwaith Gwyrdd
[3] Trosolwg Cenedlaethol o Gymru
[4] Llesiant yng Nghymru

## Sut mae'r pennawd yma'n effeithio ar les?

Mae amgylchedd naturiol iach yn fodd i hyrwyddo twf economaidd, denu buddsoddiad, cymell ymwelwyr i wario rhagor a rhoi rhagor o wydnwch o ran newid hinsawdd.

Mae llifogydd yn effeithio ar swyddi ac incwm, er enghraifft oherwydd bod rhaid i fusnesau gau dros dro, newid amodau gwaith neu adael ardal oherwydd risgiau llifogydd annerbyniol.

O'u cymharu ag ardaloedd diffaith, mae mwy o weithgarwch cymdeithasol mewn mannau gwyrdd deniadol, ac maen nhw'n denu ragor o ymwelwyr. Mae preswylwyr yn dod i adnabod eu cymdogion, ac mae llai o droseddau yn ardaloedd canol dinasoedd sydd â mwy o fannau gwyrdd naturiol5.

## Beth yw'r risgiau o beidio â chynnal neu wella llesiant yng nghyd-destun y pennawd yma?

Os bydd yr amgylchedd mewn cyflwr gwael, bydd yn anos paratoi ar gyfer risgiau i fusnesau a phreswylwyr. Yn ogystal â hynny: mae'n lleihau buddsoddiad; mae'n lleihau gwerth eiddo; mae'n arwain at gostau anochel i'r economi yn y tymor hir; chaiff gweithwyr medrus mo'u denu; mae'n arwain at lefelau isel o ddatblygiad/feddiant; mae'n denu llai o ymwelwyr, ac o'r herwydd, llai o wariant gan dwristiaid.

## Mae modd i ni adeiladu ar yr enghreifftiau canlynol o arfer presennol:

Tri chynllun seilwaith gwyrdd allweddol: Grangetown Werddach, Caerdydd; dinas Vastra Hamnen, Malmo; a phrosiect Connswater Community Greenway, Belfast.

Mae gan Gwm Taf arlwy ardderchog i dwristiaid o ran hamdden, diwylliant a threftadaeth. Er enghraifft, mae seiclo'n werth £3 biliwn y flwyddyn i economi'r DU[6], ac mae cyfleoedd i adeiladu ar botensial Cwm Taf i fod yn lleoliad seiclo arbennig.

| Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai o gymorth mewn perthynas â'r pennawd yma? |
|---|
| Mae angen meithrin dealltwriaeth ymhlith y sawl sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn cydnabod y cysylltiadau rhwng yr amgylchedd a gwaith adfywio, ffyniant a gwydnwch yn well. Caiff hynny ei anwybyddu'n aml wrth gynllunio a chyflawni gwaith adfywio strategol a lleol. |
| Mae cynlluniau seilwaith gwyrdd yn brin iawn yng Nghymru o hyd, er gwaethaf yr |

[5] Ymosodedd a thrais yng nghanol dinasoedd: effeithiau'r amgylchedd ar flinder meddyliol.
[6] Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddiaeth Llundain

| |
|---|
| amrywiaeth eang o fanteision sy'n gysylltiedig â nhw. Beth fydd yn helpu i wneud seilwaith gwyrdd yn rhan o waith cynllunio a chyflawni'r brif ffrwd yng Nghymru? |
| Mae lefelau uchel o gyflogaeth yn hollbwysig ar gyfer llesiant. Sut y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgysylltu â'r gymuned fusnes i ddeall eu rôl a'u cyfraniad o ran llesiant yn well? |

***Mae gan amgylchedd Cwm Taf (trefol a chefn gwlad) rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella iechyd a lles pobl.***

Caiff ei hamcangyfrif mai £650 miliwn y flwyddyn yw cost diffyg ymarfer corff i Gymru[7]. Serch hynny, caiff ei chydnabod yn eang y caiff llawer o'r problemau iechyd allweddol eu hystyried yn rhai y mae modd eu hatal mewn llawer o ffyrdd[8][9].

Yn ôl mwy a mwy o dystiolaeth ryngwladol, gallai cysylltiad â natur neu fannau gwyrdd, neu'r gallu i'w defnyddio nhw, fod â goblygiadau i iechyd corfforol a seicolegol[10]. Yn ogystal â hynny, mae tystiolaeth y gallai gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol rhwng iechyd pobl fod yn llai lle y mae'n haws defnyddio mannau gwyrdd, o'u cymharu ag ardaloedd lle y mae hynny'n anos.

Mae lefelau gweithgarwch corfforol ymysg oedolion yng Nghwm Taf ymysg yr isaf yng Nghymru, ond ymgysylltiad wrthym fod cysylltiad uniongyrchol llawer o bobl ag iechyd a lles yn cael ei amser a dreulir yn yr awyr agored. Serch hynny, mae pobl wedi rhannu eu pryderon am ansawdd a hygyrchedd mannau gwyrdd, ac am ymwybyddiaeth ohonyn nhw, mewn ardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad. Dywedodd pobl yn aml nad oedden nhw'n gwybod lle y gallen nhw fynd neu beth y gallen nhw ei wneud. Yn benodol, dywedon nhw nad yw mannau gwyrdd wedi'u lleoli'n agos at y bobl a fyddai'n elwa arnyn nhw fwyaf ym mhob achos, ac yn aml nad ydyn nhw wedi'u rheoli mewn ffyrdd sy'n eu gwneud yn hygyrch ac yn ddeniadol i'w defnyddio.

Mae modd i rwydweithiau o lwybrau, coed mewn ardaloedd trefol a seilwaith gwyrdd ar gyfer gwella ansawdd a hygyrchedd cymdogaethau chwarae rhan bwysig. Mae modd iddyn nhw wella iechyd a lles pobl a'i gwneud yn bosibl cyrraedd cyfleusterau, gwasanaethau, gwaith a meysydd hamdden eraill yn ddiogel ar yr un

[7]Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol
[8] Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol, 2013-2014
[9] Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol, 2014-2015
[10]Cyhoeddiad Life Course, Greenspace and Health, 2016.

pryd. Mae ymchwil yn dangos bod pobl yn gwneud rhagor os ydyn nhw'n byw mewn amgylchedd deniadol a llawn ysbrydoliaeth[11].

Caiff ansawdd aer gwael effaith uniongyrchol ar iechyd a gall hefyd annog pobl i beidio â mentro i'r awyr agored. Mae hynny yn ei dro'n cyfrannu at ffyrdd o fyw sy'n cynnwys llai o symud. Llifoedd traffig trwm yw prif ffynhonnell llygredd aer yng Nghwm Taf, yn enwedig pan fo llawer o dagfeydd ac oedi a gaiff eu gwaethygu gan ddatblygiadau newydd. Ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed y mae pobl hŷn, oedolion â salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu, a babanod a phlant.

Gall moddau teithio llesol integredig chwarae rhan allweddol o ran gwella iechyd preswylwyr lleol, gwasanaethu anghenion cludiant lleol, a helpu i fynd i'r afael â phroblemau gyda thagfeydd a llygredd yn sgil dibyniaeth ar geir. Yn adroddiad gan Ysgol Economeg Llundain yn 2011 cafodd ei hamlygu y byddai cynnydd o 20% mewn seiclo erbyn 2015 yn arbed £207 miliwn i'r economi o ganlyniad i lai o dagfeydd traffig, £71 miliwn o ganlyniad i lefelau llygredd is, a £52 miliwn o gostau i'r GIG.

## Sut mae'r pennawd yma'n effeithio ar les?

Mae cynyddu lefelau o weithgarwch corfforol yn cynyddu hyd oes pobl ac mae'n lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, diabetes math II ac osteoporosis.

Mae'r cysylltiadau rhwng mannau gwyrdd ac iechyd yn cynnwys ansawdd aer gwell, gweithgarwch corfforol, cydlyniad cymdeithasol a llai o straen. Er enghraifft, mae asthma yn llai cyffredin ymysg plant sy'n byw mewn ardaloedd lle y mae mwy o goed stryd.[12]

Mae modd i'r amgylchedd naturiol gyfrannu at wydnwch cymdeithasol drwy roi cyfleoedd i integreiddio ac ymgysylltu. Mae llawer o weithgareddau hamdden awyr agored yn rhad ac am ddim ac maen nhw'n ei gwneud yn bosibl cymryd rhan yn y rhain.

## Beth yw'r risgiau o beidio â chynnal neu wella llesiant yng nghyd-destun y pennawd yma?

Mae'r risgiau'n cynnwys: rhagor o achosion o salwch meddwl a chorff; costau cysylltiedig sylweddol uwch; llai o gydlynu a chymdeithasu mewn cymunedau; a llai o gysylltiad ymysg oedolion a phlant â'u tirwedd a'u mannau gwyrdd lleol.

## Mae modd i ni adeiladu ar yr enghreifftiau canlynol o arfer presennol/da:

[11] Anghydraddoldebau Iechyd: cynnydd a'r camau nesaf .
[12] Cynllun Rheoli Craidd ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig Tiroedd Gŵyr, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Llwybr Taith Taf yn un o lwybrau teithio llesol gorau Cymru. Mae gan Gwm Taf fwy na 800km o hawliau tramwy cyhoeddus, ac mae mynediad agored gan tua thraean o'r tir.

Mae Cynllun Cludiant Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru (Ionawr 2015) yn anelu at warchod yr amgylchedd drwy hyrwyddo cerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus o safon.

Mae gan amgylchedd Cwm Taf gyfoeth o weithgareddau a chlybiau chwaraeon cymunedol, e.e. achlysur Parkrun ym Mhontypridd, sy'n denu rhedwyr a gwirfoddolwyr bob penwythnos.

Nod achlysur 'Beat the Street' yw gwella cyfraddau teithio llesol. Bu 175,000 o bobl yn chwarae yn 2015 ac efallai y bydd cyfleoedd i alinio'r achlysur â llwybrau teithio llesol presennol.

| Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai o gymorth mewn perthynas â'r pennawd yma? |
| --- |
| Mae angen cynnal deialog newydd gyda chymunedau Cymoedd De Cymru er mwyn hyrwyddo cefn gwlad, mewn modd cadarnhaol, yn eiddo iddyn nhw y gallan nhw ei ddefnyddio Bydd gwybodaeth, ymwybyddiaeth, a gwaith hyrwyddo cydgysylltiedig yn allweddol. Beth yw'r ffyrdd gorau o wneud hynny? |
| Adnabod y prif rwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio eu tirwedd leol, rhag ei mwynhau a rhag rhyngweithio â hi yng Nghymoedd De Cymru. Byddai hynny'n helpu sefydliadau i ddeall yn well yr hyn y gallan nhw ei wneud i helpu i chwalu'r rhwystrau hynny. |
| Ydyn ni'n gwybod y cymunedau yng Nghwm Taf lle y mae'n gymharol anodd defnyddio mannau gwyrdd? |

***Mae pobl am fyw mewn amgylchedd glân a diogel ac maen nhw'n fwyfwy awyddus i helpu i reoli eu hardaloedd lleol***

Drwy waith ymgysylltu yng Nghwm Taf, cawsom ni wybod bod preswylwyr yn ystyried eu hamgylchedd yn ased rhagorol ac mae'n gwneud i bobl deimlo'n falch, yn gadarnhaol ac yn hapus am eu hardal.

Serch hynny, cafodd achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu nodi'n her barhaus ac yn rhwystr sylweddol i bobl rhag defnyddio a mwynhau eu hamgylchedd lleol. Roedd baw cŵn, sbwriel, achosion o dipio a gwastraff cysylltiedig â chyffuriau yn broblemau cyffredin yr oedd pobl yn eu nodi am eu hardaloedd. Yn ogystal â hynny, datgelodd pobl eu bod yn teimlo wedi'u

hesgeuluso, neu wedi'u hecsbloetio hyd yn oed, yn sgil penderfyniadau am y ffordd y mae eu hardaloedd lleol yn cael eu rheoli. Maen nhw am ddefnyddio mannau gwyrdd 'o ansawdd da' ac mewn rhai achosion, maen nhw am gael eu cynnwys yn fwy yn y gwaith o reoli eu hardaloedd lleol.

Er mwyn cynnig cyfleoedd cyfartal, rhaid mynd i'r afael ag anghydraddoldeb amgylcheddol yn ogystal ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd[13]. Mae ardaloedd cymharol fawr o Gwm Taf ym meddiant/yng ngofal cyrff cyhoeddus ac mae llawer o'r ardaloedd hyn, yn enwedig y coedwigoedd a'r coetiroedd, yn agos i drefi a chymunedau. Mae hynny'n ased mawr, ac mae'n gyfle mawr i sefydliadau, busnesau a'r gymuned weithredu ar y cyd.

Mae cynnwys y gymuned yn fwy yn fodd i wella llesiant corfforol a meddyliol drwy ddatblygu sgiliau, mynd i'r afael ag unigrwydd, annog perthnasau cymdeithasol, cynyddu gallu'r gymuned, a gwella diwylliant, y celfyddydau ac iaith o ran disgrifio perthynas â'r amgylchedd. Mae hynny'n fodd i greu ymdeimlad mwy cryf o berchnogaeth, gweithgarwch a gwelededd ('gwarcheidwaid cymwys') mewn ardaloedd. Mae modd i hynny yn ei dro helpu i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hefyd o fudd i sefydliadau sydd o dan bwysau ariannol cynyddol i reoli eu hasedau.

## Sut mae'r pennawd yma'n effeithio ar les?

Mae achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn atal pobl rhag defnyddio a mwynhau eu hamgylchedd lleol. Mae hefyd yn tanseilio diogelwch a lles preswylwyr, mae'n effeithio ar yr economi a'r amgylchedd lleol, mae'n llesteirio ffyniant, ac mae'n atgyfnerthu canfyddiadau negyddol am yr ardal.

Cafodd ei dangos bod mentrau sy'n anelu at gynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn cynyddu cyfalaf cymdeithasol, eu bod yn gwella cydlyniad cymunedol a'u bod yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol[14].

## Beth yw'r risgiau o beidio â chynnal neu wella llesiant yng nghyd-destun y pennawd yma?

Mae'r risgiau'n cynnwys: rhagor o wariant gan gyrff cyhoeddus yn y tymor hir oherwydd gwaith mewn ymateb i ddigwyddiadau; effeithiau parhaus i gydlyniad cymunedau; canfyddiadau negyddol am yr ardal; colli cyfleoedd i drefnu mentrau

[13] Llesiant yng Nghymru
[14] *An evaluation of Cydcoed: The social and economic benefits of using trees and woodlands for community development in Wales*.

cymunedol; a diffyg cysylltiadau rhwng mannau gwyrdd/mannau gwyrdd o ansawdd gwael.

Mae modd i ni adeiladu ar yr enghreifftiau canlynol o arfer presennol:

Mae'r gyfran gymharol fawr o dir ym meddiant/yng ngofal cyrff cyhoeddus yng Nghwm Taf yn gyfle gwych i hybu rhagor o ddefnydd a pherchnogaeth.

Mae gan Gwm Taf 10 o ardaloedd baner werdd a dwy gymuned baner werdd, ac mae 59 o ysgolion wedi ennill statws baner werdd ers 2014.

Mae PAWS yn fenter leol sydd wedi annog pobl sy'n mynd â chŵn am dro i roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus.

Mae grwpiau cymunedol ledled Cwm Taf yn weithgar yn eu hamgylchedd lleol. Mae hynny'n dangos y ffordd y mae'r amgylchedd yn fodd i wella cydlyniad, cynaliadwyedd, cyfranogiad, iechyd, addysg a hyfforddiant mewn cymunedau, e.e. grwpiau 'Friends of Parc Taf Bargoed' a 'Welcome to our Woods'.

| Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai o gymorth mewn perthynas â'r pennawd yma? |
|---|
| Sut y mae modd rhyddhau sefydliadau cyhoeddus o brosesau a gweithdrefnau sy'n atal llawer o gyfleoedd lleol rhag cael eu gwireddu? Mae unigolion a grwpiau cymunedol yn aml yn teimlo'n rhwystredig pan fyddan nhw'n gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus. |
| A oes gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddealltwriaeth glir o gostau achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac a ydyn nhw'n rhannu gwybodaeth? |

***Mae cymunedau'n wynebu risgiau sylweddol o hinsawdd newidiol, nawr ac yn y dyfodol.***

Mae tystiolaeth glir bod yr hinsawdd wedi newid yng Nghymru[15]. Mewn termau cyffredinol, dyma'r risgiau mwyaf difrifol: Achosion mwy aml o lifogydd sy'n effeithio ar gymunedau, busnesau a seilwaith; effeithiau tymheredd uchel ar iechyd a llesiant; diffygion dŵr; effeithiau ar fudd natur (cyfalaf naturiol); effeithiau ar waith cynhyrchu bwyd; a phlâu a chlefydau sy'n newydd ac sy'n dod i'r amlwg. [16]

[15] *The climate of the United Kingdom and recent trends*.
[16] Trosolwg Cenedlaethol o Gymru

Llifogydd yw'r math mwyaf cyffredin o drychineb "naturiol" sy'n effeithio ar gartrefi, busnesau a seilwaith yng Nghymru ac mae modd iddyn nhw amharu ar weithgarwch cymunedau cyfan. Yng Nghwm Taf, mae disgwyl y bydd y risg o lifogydd o afonydd a dŵr wyneb yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd glaw trwm a'r tir mynyddig. Mae gan Gwm Taf un o'r cyfrannau uchaf o gymunedau dan anfantais yn gymdeithasol sydd mewn ardaloedd â risg llifogydd. Yn achos rhai safleoedd, gallai yswiriant llifogydd a morgeisi fynd yn fwyfwy anodd i'w cael.

Mae tua 2,000 o farwolaethau cysylltiedig â gwres bob blwyddyn ledled y DU, a chaiff ei rhag-weld y bydd y risg i iechyd yn cynyddu wrth i'r tymheredd gynyddu. Mae tanau gwyllt sy'n cael eu cynnau'n fwriadol yn effeithio ar Gymoedd De Cymru bob blwyddyn, a Chwm Taf yw un o'r ardaloedd a gaiff eu heffeithio waethaf. Mae'n bosibl y bydd tanau gwyllt yn fwy aml ac yn waeth oherwydd tymereddau uwch, a byddai hynny'n fygythiad i ddiogelwch pobl a'r amgylchedd. Byddai costau i'r economi leol yn uwch o ganlyniad iddo. [17]

Bydd raid i Gwm Taf gynllunio mesurau addasu er mwyn sicrhau bod modd i'w chymunedau wrthsefyll effeithiau tywydd mawr. Mae cyfran gymharol fawr o Gwm Taf ym meddiant/yng ngofal cyrff cyhoeddus, ac mae hynny'n cynnig cyfleoedd i wella gwydnwch cymunedau'n lleol ac yn nhermau'r dirwedd. Bydd lleihau defnydd y gymdeithas o garbon hefyd yn cyfrannu at wella'i gwydnwch a'i gallu i addasu i newid hinsawdd.

## Sut mae'r pennawd yma yn effeithio ar lesiant?

Mae llifogydd a gwres yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl ac ar eu disgwyliad oes. Yn ogystal â hynny, mae'n effeithio ar amgylchiadau byw pobl a'u hincwm gwario'n uniongyrchol drwy ddifrodi eiddo. Mae modd i lifogydd beri marwolaeth, salwch, anafiadau a straen, ac mae'n bosibl bod effeithiau'n waeth ar gymunedau sy'n fregus yn gymdeithasol.[18]

Mae ymchwil wedi dangos y cafodd y nifer uchaf o danau gwyllt eu cynnau'n fwriadol yn yr ardaloedd a oedd yn cynnwys y poblogaethau mwyaf tlawd a lleiaf iach yng Nghymoedd De Cymru. Y rhain sydd fwyaf agored i effeithiau tanau gwyllt. Mae mwg o danau gwyllt yn wenwynig ac mae'r effaith yn llawer mwy difrifol ar y rheiny sy'n dioddef o salwch anadlu neu salwch cardiofasgwlaidd, yr henoed a'r rheiny sydd ifanc iawn[19].

[17] Trosolwg Cenedlaethol o Gymru
[18] *Newid hinsawdd, cyfiawnder a bregusrwydd*.
[19] *Effaith tanau gwyllt ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru*

**Beth yw'r risgiau o beidio â chynnal neu wella llesiant yng nghyd-destun y pennawd yma?**

Mae'r risgiau'n cynnwys: newid posibl i fywyd ac asedau cymunedol pwysig, a fydd yn debygol o fod yn fwy aml yng ngoleuni niwed hinsawdd sydd wedi'i ddarogan; costau hirdymor i'r economi y mae modd eu hosgoi; effeithiau ar wasanaethau; cyfleoedd coll i wella gwydnwch cymunedau; effeithiau ar yr amgylchedd cymdeithasol, e.e. llai o gydlyniant cymdeithasol, mannau hanesyddol, a'r amgylchedd naturiol.

**Mae modd i ni adeiladu ar yr enghreifftiau canlynol o arfer presennol/da:**

Mae'r gyfran weddol fawr o dir sydd ym meddiant/yng ngofal cyrff cyhoeddus yng Nghwm Taf yn ased mawr. Mae hefyd yn gyfle i weithredu ar y cyd i helpu i fynd i'r afael â heriau o ran newid hinsawdd yn lleol ac o ran y dirwedd, e.e. o adfer mawn tir uchel Cwm Taf byddai modd lleihau llifogydd yn is ar yr afon, a byddai modd gwella ansawdd yr aer a'r dŵr.

Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n nodi safleoedd addas i'w datblygu yn y dyfodol.

Buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd at ddiben cyfrannu at leihau'r risg llifogydd, at leihau llygredd aer a dŵr, at ddal nwyon tŷ gwydr ac at greu tirweddau dymunol.

Prosiect 'Bryniau Iach' (Enillydd 2016 Gwobr Cynnal Cymru), dull aml bartner o reoli bryniau Cwm Rhondda'n rhagweithiol er budd pobl a bywyd gwyllt, gan leihau effaith ac ymlediad tanau gwyllt.

| Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai o gymorth mewn perthynas â'r pennawd yma? |
|---|
| Mae angen rhoi rhagor o bwyslais ar gynlluniau 50 mlynedd a 100 mlynedd, ac mae angen ei gwneud yn bosibl gwneud rhagor yn rhan ohonyn nhw, yn enwedig mewn perthynas â newid hinsawdd yn lleol. Gan fod y dulliau o reoli materion newid hinsawdd yn aneglur yng Nghymru, sut y mae modd i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni hynny? |
| Mae addasu i newid hinsawdd yn her i bawb, ac mae angen mynd i'r afael â hi drwy ddull cydgysylltiedig. Mae angen mathau newydd o gydweithredu er mwyn cynorthwyo i reoli'r amgylchedd mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael â'r heriau o hinsawdd sy'n newid. |
| Mae rhai'n galw am arbrofion ar raddfa fwy o reoli tir (rheolaeth llifogydd naturiol) at ddibenion cronni dŵr glaw, e.e. cymorthdaliadau i ffermydd i ddefnyddio tir er mwyn lleihau llifogydd ar dir gerllaw. Sut y mae modd symud hynny yn ei flaen yng Nghymru? |

***Mae bywyd gwyllt Cwm Taf yn mynd yn fwyfwy gwasgaredig ac mae mwyfwy o fygythiadau iddo. Er hynny, mae modd i bobl wneud gwahaniaeth a helpu bywyd gwyllt i ffynnu.***

Mae byd natur yn cyfoethogi'n bywydau, mae'n rhoi'r sylfeini i fywyd ac mae'n ei warchod. Serch hynny, daeth i'r amlwg yn yr adroddiad 'State of Nature' yn 2013 fod 60% o'r rhywogaethau a gafodd eu hasesu wedi dirywio dros y 50 o flynyddoedd diwethaf.[20] Cafodd y pum bygythiad mwyaf i natur eu nodi: newid i gynefinoedd, newid hinsawdd, llygredd, gorddefnydd o'r tir a rhywogaethau dieithr.[21]

Mae bywyd gwyllt Cwm Taf yn unigryw, yn amrywiol ac yn bwysig (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol). Mae ei thirwedd wedi'i llunio gan y bobl sydd wedi byw a gweithio ynddi. Serch hynny, mae astudiaethau diweddar yn awgrymu bod cysylltiadau pobl yma'n cael eu colli, a bod gan hynny oblygiadau negyddol o ran llesiant. Yn fwy cadarnaol, mae ymchwil yn dangos bod 94% o boblogaeth y DU yn cytuno bod gennym ni rwymedigaeth foesol i atal y golled o fioamrywiaeth[22]. [23]

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth newydd i bob corff cyhoeddus, sef hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn eu gwaith. Yng Nghwm Taf, mae rhannau cymharol fawr o dir ym meddiant/yng ngofal cyrff cyhoeddus (e.e. mae'r coedwigoedd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n eu rheoli'n cynnwys tua 19% o'r ardal). Mae'r ddeddfwriaeth ac asedau cyhoeddus newydd yng Nghwm Taf yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau a chymunedau i weithio gyda'i gilydd i helpu bywyd gwyllt i ffynnu. Mae hynny'n dangos sut y mae natur yn rhoi budd i bobl a'r amgylchedd.

## Sut mae'r pennawd yma'n effeithio ar les?

Mae amgylchedd naturiol iach yn cynorthwyo pobl mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynhyrchu bwyd, cadw dŵr yn lân a pheillio planhigion. Mae'n cyfrannu at wydnwch i ddygymod â newid hinsawdd a newidiadau eraill, e.e. lliniaru llifogydd, peillio cnydau a blodau, gwella ansawdd aer/dŵr, a storio carbon.

Mae afonydd, nentydd, llynoedd a gwlypdiroedd yn rhoi dŵr yfed ac maen nhw'n cyfrannu at wella'n bywydau drwy'r cyfleoedd hamdden ac adloniant y maen nhw'n eu cynnig.

---

[20] Adroddiad State of Nature.
[21] Global Biodiversity Outlook 3
[22] Agweddau tuag at fioamrywiaeth
[23] Louv (2010) – Last child in the woods: saving our children from Nature Deficit Disorder – Atlantic Books.

Mae safleoedd natur yn rhoi mynediad a chyfleoedd hamdden sy'n cyfrannu at les ac mae'n fodd iddyn nhw fod yn rhan sylfaenol o'r dirwedd leol, ei threftadaeth ddiwylliannol a'r economi. Yn 2011, amcangyfrifodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fod safleoedd gwarchodedig yn cyfrannu £128 miliwn yn flynyddol at economi Cymru.

**Beth yw'r risgiau o beidio â chynnal neu wella llesiant yng nghyd-destun y pennawd yma?**

Mae'r risgiau'n cynnwys: colli rhagor brosesau naturiol sydd o fudd i'r gymdeithas; bod yn agored i blâu a chlefydau; a llai o wydnwch i wynebu newid hinsawdd. Mae adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyflwr Adnoddau Naturiol (2016), yn tynnu sylw at y canlyniadau sylweddol i golli modd i beillio planhigion mewn cymdeithas. Caiff ei hamcangyfrif mai £1.9 biliwn fyddai cost newid i beillio â llaw yn y DU.

**Mae modd i ni adeiladu ar yr enghreifftiau canlynol o arfer presennol/da:**

Adfer mawndir a chynefinoedd tir uchel drwy amodau a chytundebau cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt, a chynnal ffyrdd hirdymor a chadarnhaol o'u rheoli.

Prosiect 'Bryniau Iach' (Enillydd 2016 Gwobr Cynnal Cymru), dull aml bartner o reoli bryniau Cwm Rhondda'n rhagweithiol er budd pobl a bywyd gwyllt, gan leihau effaith ac ymlediad tanau gwyllt.

Grwpiau gwaith ar y cyd er mwyn gwneud y canlynol: gwarchod a rheoli cynefin unigryw pilipalod brith, y glaswelltir corslyd, ar lefel y dirwedd; deall hanes diwydiannol, daeareg, bioamrywiaeth a gwerth cymunedol unigryw tipiau glo; hyrwyddo gwaith rheoli glaswelltir cynaliadwy er budd cadwraeth (o dan arweiniad PONT Cymru).

Tyfu rhagor o fwyd mewn cymunedau ac annog pobl i dyfu a bwyta eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain, gan leihau'r risg o salwch a gordewdra.

| Pa wybodaeth ychwanegol a fyddai o gymorth mewn perthynas â'r pennawd yma? |
| --- |
| Mae ansicrwydd yn parhau o ran mesur ac amlinellu'n gywir gwerth natur i'r gymdeithas, sy'n cael ei alw'n 'gyfalaf naturiol' yn aml. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n datblygu hyn yn ogystal â chyflawni Datganiadau Ardal yn 2017. |

***Mae plant yn treulio llai o amser yn yr awyr agored, ond mae wedi'i dangos bod y gallu i ddefnyddio llefydd chwarae diogel a naturiol yn yr awyr agored yn gwella lles corfforol ac emosiynol plant.***

Plant Cymru sydd â'r cysylltiad lleiaf â natur yn y DU. [24]Dyw 1 o bob 4 plentyn yng Nghymru byth yn chwarae yn yr awyr agored ac mae ychydig yn llai na 90% o blant yn teimlo nad oes ganddyn nhw gysylltiad â'r byd naturiol.

Mae ymchwil yn dangos bod y gallu i ddefnyddio mannau chwarae naturiol ac i gysylltu â natur yn effeithio ar allu plant i ddysgu, ac ar eu lles, mewn modd cadarnhaol. Mae Chwarae Cymru yn tynnu sylw at y ffordd y mae chwarae ym myd natur yn cryfhau'r gallu i ymdopi â straen, y mae'n annog diddordeb mewn gofalu am yr amgylchedd, ac y mae'n cyfrannu at ystwythder, cydbwysedd, creadigrwydd, cydweithrediad cymdeithasol a'r gallu i ganolbwyntio[25].

Dywedodd plant yng Nghwm Taf wrthym ni eu bod yn mwynhau gweithgareddau awyr agored sy'n heriol, ond bod diffyg gweithgareddau a 'phethau i'w gwneud' yn aml. Roedd rhieni yng Nghwm Taf yn rhannu'r neges yma, a phwysleision nhw yn ogystal â honno'r angen am amgylcheddau diogel i blant ddysgu, chwarae a rhyngweithio.

### Sut mae'r pennawd yma'n effeithio ar les?

Mae cysylltu â natur yn gwella addysg plant, eu sgiliau personol a chymdeithasol, a'u hiechyd a'u llesiant, ac mae hynny'n arwain at ddatblygu dinasyddion cyfrifol[26].

Mae'n cryfhau'r gallu i ymdopi â straen, mae'n gwella datblygiad gwybyddol plant, mae'n annog diddordeb mewn gofalu am yr amgylchedd, ac mae'n cyfrannu at ystwythder, cydbwysedd, creadigrwydd, cydweithrediad cymdeithasol a'r gallu i ganolbwyntio. [27]

[24] Connecting with Nature
[25] Pam y mae chwarae yn bwysig a'r hyn y mae modd i bob un ohonom ni wneud amdano.
[26] Y Dewis Naturiol: diogelu gwerth natur
[27] Pam y mae chwarae yn bwysig a'r hyn y mae modd i bob un ohonom ni wneud amdano.

Beth yw'r risgiau o beidio â chynnal neu wella llesiant yng nghyd-destun y pennawd yma?

Mae'r risgiau'n cynnwys: plant sy'n gwneud llai o ymarfer corff ac sy'n debygol o barhau â'u harferion pan fyddan nhw'n oedolion; poblogaeth gynyddol afiach sy'n rhoi pwysau anghynaliadwy ar wasanaethau iechyd; llai o gysylltiad â byd natur; llai o bobl sydd â diddordeb mewn gofalu am eu hamgylchedd lleol.

Mae modd i ni adeiladu ar yr enghreifftiau canlynol o arfer presennol/da:

Cafodd cwrs arweinyddiaeth Skogsmulle ei gynnal yn y DU am y tro cyntaf erioed ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, Cwm Taf yn 2015. Skogsmulle yw dull awyr agored, blynyddoedd cynnar Sweden sy'n hwyluso dysgu plant drwy brofiadau synhwyraidd uniongyrchol. Mae ysgol leol wedi cynnal sesiynau Skogsmulle gyda'i phlant ym Mlwyddyn 2.

'Walk to the Wild', prosiect ysgolion i alluogi athrawon i fynd â'u disgyblion am dro i safle 'gwyllt' i gael profiad dysgu awyr agored am hanner diwrnod (yn rheolaidd).

Mae Arolwg Chwaraeon Ysgol Cwm Taf yn dangos bod pobl ifainc yng Nghwm Taf yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon mwy a mwy.

## 4. Cysylltiadau â themâu eraill yng nghyd-destun llesiant

Yn hytrach na sefyll ar wahân, mae gan les diwylliannol gysylltiadau â nifer o themâu eraill yng nghyd-destun llesiant. Isod y mae rhai o'r pynciau a'r cysylltiadau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg:

| | |
|---|---|
| Adeiladau ar gryfderau | Thema a gaiff ei rhannu'n gyffredin. Mae'r gyfran gymharol uchel o dir sydd ym meddiant/yng ngofal cyrff cyhoeddus yng Nghwm Taf yn cynnig cyfleoedd gwych o ran: gwrthsefyll newid hinsawdd; gwella iechyd pobl; annog gweithgarwch diwylliannol; gwella bywyd gwyllt; a galluogi cymunedau i reoli ardaloedd, gan wella'u sgiliau a pherthnasau cymdeithasol a chan fynd i'r afael ag unigrwydd. |
| Achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Mae effeithiau achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bellgyrhaeddol, ar yr amgylchedd, yr economi leol a chanfyddiadau diwylliannol am yr ardal. |
| | Cludiant, defnyddio gwasanaethau, teithio llesol, |

| | |
|---|---|
| Symudedd a chysylltiadau | cysylltiadau cymunedol, tagfeydd, ansawdd aer. Mae pob un o'r pethau yma'n ymwneud â ffyrdd pobl o symud a chysylltu ledled Cwm Taf. Mae hwn yn bwnc eang o arwyddocâd sylweddol sy'n berthnasol i'r pedair thema llesiant. |
| Ymwybyddiaeth a gwybodaeth | P'un a ydyn nhw am wybod am achlysuron yn yr ardal, am ffyrdd o ddefnyddio gwasanaethau, neu am le y mae modd iddyn nhw fynd am dro'n ddiogel, mae ymwybyddiaeth pobl o bethau lleol yn aml yn gyfyngedig. Mae angen deialog newydd gyda chymunedau. |
| Gwrthsefyll newid hinsawdd | Bydd hyn yn allweddol ym mhob un o'r pedair thema yng nghyd-destun llesiant, yn enwedig o ran iechyd a llesiant pobl, mewnfuddsoddiadau, isadeiledd, datblygiadau, gwasanaethau, cyllid y sector cyhoeddus a gwydnwch cymunedau. |
| Dyfodol carbon isel | Bydd angen i ni ddeall ffyrdd gwell o hyrwyddo llesiant nad ydyn nhw'n creu ôl-troed ecolegol cyfatebol mwy. Bydd symud tuag at fod yn gymdeithas carbon isel yn cyfrannu at ddatblybu sgiliau gweithwyr mewn perthynas â thechnolegau gwyrdd newydd a bydd yn cyfrannu at wella gwydnwch a gallu cymunedau i addasu i newid hinsawdd. |
| Camau atal | Mae'r pwysau ar sefydlaidau cyhoeddus yn anghynaliadwy. Mae modd i ddulliau ataliol o fynd i'r afael â materion mewn meysydd fel iechyd gyfrannu at greu dyfodol mwy cynaliadwy. |
| Twristiaeth, adloniant a hamdden | Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad cynyddol sylweddol at Gwm Taf, yn enwedig o ran difyrrwch, hamdden, bwyd/diod a threftadaeth. O'i rheoli a'i hyrwyddo'n dda, mae'n gwella'r economi leol a threftadaeth ddiwylliannol, mae'n cynnig cyfleoedd newydd a chyffrous i fusnesau ac mae'n annog rhagor o bobl i ymweld/aros. |
| Tystiolaeth | Mae'r prif negeseuon o ran tystiolaeth wedi ymwneud â bod yn agored, bod yn dryloyw a nodi rhesymeg. Mae rhai cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wneud hynny, e.e. Defnyddio rhaglen 'flymapper', sef modd i swyddogion maes adeiladu cronfa gynhwysfawr o dystiolaeth am dipio ar gyfer cynllunio ac ymateb. |